UCAC
Undeb
Cenedlaethol
Athrawon
Cymru

Amodau Gwaith

# Amser Cynllunio, Paratoi ac Asesu

Mai 2026

UCAC | yr undeb sy'n diogelu athrawon a darlithwyr Cymru

www.ucac.cymru

# Amser Cynllunio, Paratoi ac Asesu (CPA)

**Ar 1 Medi 2005, cyflwynwyd yr hawl gytundebol i athrawon gael amser digyswllt yn ystod amserlen addysgu'r ysgol ar gyfer cynllunio, paratoi ac asesu (CPA). Cyflwynwyd yr hawl hwn er mwyn lleddfu rhywfaint ar bwysau llwyth gwaith athrawon a chodi safonau trwy gynnig peth amser ar gyfer CPA yn ystod amserlen y diwrnod addysg.**

## Rheolau CPA

Mae'r rheolau ar gyfer amser Cynllunio Paratoi ac Asesu yn y Ddogfen Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol (y Ddogfen) yn hollol glir bod hwn yn amser sydd wedi'i warantu fel rhan o gontract cyflogaeth athrawon. Trwy beidio â darparu Amser CPA digonol byddai'r cyflogwr yn torri'r cytundeb cyflogaeth.

Dylai pob athro, sydd ag ymrwymiadau addysgu, dderbyn Amser CPA sy'n cyfateb i o leiaf 10% o'i amserlen addysgu. Nodi isafswm a wna'r Ddogfen; mae hawl gan ysgolion i gynnig mwy na hynny o Amser CPA.

Mae'r Ddogfen yn datgan y canlynol:

*52.5. Mae gan bob athro sy'n addysgu disgyblion yr hawl i gael cyfnodau rhesymol o amser i Gynllunio, Paratoi ac Asesu (CPA) fel rhan o'r 1265 awr y cyfeirir atynt ym mharagraff 51.5 neu gyfwerth pro rata (yn ôl y digwydd) er mwyn eu galluogi i gyflawni cyfrifoldebau proffesiynol addysgu ac asesu. Rhaid darparu amser CPA mewn unedau heb fod yn llai na hanner awr yn ystod wythnos amserlen addysgu'r ysgol a rhaid iddo beidio â bod yn llai na 10% o amser addysgu a amserlennir yr athro. Rhaid peidio â gofyn i athro gyflawni unrhyw ddyletswyddau eraill yn ystod amser CPA yr athro.*

***(Dogfen Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol (Cymru) 2025/26 a chanllawiau ar gyflog ac amodau athrawon ysgol (diwygiedig) – Mawrth 2026)***

## Pwy sy'n gymwys i dderbyn Amser CPA?

- Mae gan bob athro y mae ganddynt ymrwymiadau addysgu yn yr amserlen, sydd ar gytundeb parhaol, tymor penodedig, dros dro neu ran-amser, hawl gytundebol i Amser CPA.
- Mae gan benaethiaid, aelodau'r uwch dîm rheoli ac athrawon sydd â chyfrifoldebau ychwanegol yr un hawl i Amser CPA yn unol â chyfanswm eu hymrwymiadau addysgu.

- Mae gan athrawon sy'n cael eu cyflogi'n uniongyrchol gan yr Awdurdod Lleol hawl i Amser CPA.
- Mae hawliau athrawon cyflenwi yn dibynnu ar natur a hyd eu cyflogaeth yn yr ysgol. Os oes disgwyl i athro cyflenwi gynllunio a pharatoi gwersi ac asesu gwaith disgyblion, yna mae'n rhaid iddo dderbyn Amser CPA.
- Dylai ysgolion sicrhau'r un telerau i athrawon sy'n cael eu cyflogi drwy asiantaeth.
- Mae hawl gan Athrawon Newydd Gymhwyso sydd yn y broses o gwblhau eu Cyfnod Ymsefydlu i dderbyn amserlen sydd â llai o gyfnodau dysgu (h.y. dim mwy na 90% o amser addysgu arferol yr ysgol). Mae ganddynt hawl *bellach* i Amser CPA sy'n cyfateb i o leiaf 10% o'r amserlen ostyngol hon.

## Sut mae gweithredu Amser CPA?

- Dylid trefnu bod athrawon yn derbyn Amser CPA yn rheolaidd fel rhan o amserlen arferol yr ysgol a'i fod wedi ei amserlennu'n glir ar gyfer pob athro e.e. fesul wythnos neu bythefnos.
- Rhaid i'r amser CPA ddigwydd yn ystod oriau arferol addysgu disgyblion; ni ellir ychwanegu'r amser ar ddechrau neu ar ddiwedd y diwrnod ysgol.
- Nid oes hawl i ddefnyddio athro ar gyfer unrhyw orchwyl arall yn ystod ei Amser CPA, gan gynnwys cyflenwi yn ystod absenoldeb athro arall.
- Yr athro ei hun sydd i benderfynu yr hyn mae am ei wneud yn ystod ei Amser CPA. Nid oes hawl gan y Pennaeth i'w gyfarwyddo i wneud gwaith penodol yn ystod yr amser yma.
- Yn dilyn o hyn, mae'n glir na ddylid disgwyl i athro baratoi gwersi ar gyfer ei Amser CPA na marcio gwaith y mae disgyblion yn ei gyflawni yn ystod yr amser hwnnw.
- Mae hawl gan athrawon ar y cyd i benderfynu defnyddio'r amser, ar adegau, ar gyfer cydweithio.
- Nid oes hawl lleihau neu ad-drefnu'r Amser CPA oherwydd gweithgareddau eraill. Pe byddai athro'n colli ei Amser CPA oherwydd ei fod yn derbyn Hyfforddiant Mewn Swydd neu oherwydd gweithgaredd ysgol (e.e. ymweliad addysgol) mae'n angenrheidiol i'r ysgol drefnu Amser CPA ar adeg arall. Dylai gyfateb i o leiaf 10% o amser addysgu gweddill yr wythnos honno.
- Mae'r un peth yn wir am gyfnod o absenoldeb byr. Os yw athro'n absennol oherwydd salwch, neu wedi derbyn caniatâd i fod yn absennol, ar y diwrnod y mae wedi'i amserlennu i gael Amser

CPA, yna dylai'r ysgol drefnu Amser CPA ar adeg arall, yn seiliedig ar o leiaf 10% o'i amser addysgu ar gyfer gweddill yr wythnos.

## Cyngor ar weithredu Amser CPA

Yn ôl y Ddogfen, mae'n rhaid darparu Amser CPA mewn unedau heb fod yn llai na hanner awr. Barn glir UCAC yw fod sesiynau hwy na hyn yn fwy buddiol.

Mae amser CPA yn rhan o amser cyfeiriedig yr athro (*directed time*) ac felly mae gan y Pennaeth yr hawl i fynnu bod yr athro'n bresennol yn yr ysgol yn ystod yr amser yma. Serch hynny, mae UCAC o'r farn y dylid caniatáu elfen o hyblygrwydd gan y gallai,o dan rai amgylchiadau, fod yn fwy effeithiol i athro gyflawni ei amser CPA oddi ar safle'r ysgol e.e. os oes prinder lle addas mewn rhai ysgolion neu brinder lle llonydd i weithio. Hoffai UCAC weld cysondeb cenedlaethol wrth gynllunio staffio yn y sectorau cynradd ac uwchradd. Credwn y dylai pob athro gael hawl statudol i gyflawni ei gyfnod CPA oddi ar safle'r ysgol, gan gynnwys gartref, pe bai'n dewis gwneud hynny.

Y Pennaeth sy'n gyfrifol am sicrhau bod disgyblion yn derbyn addysg o safon yn ystod cyfnodau CPA. Barn UCAC yw y dylid cyflogi athrawon cymwysedig i addysgu'r disgyblion yn ystod pob gwers gan gynnwys cyfnodau CPA.

> Mae'r Ddogfen yn datgan bod '*hawl gan bennaeth i gael cyfnod rhesymol o amser yn ystod sesiynau ysgol, gan ystyried ei gyfrifoldebau addysgu, er mwyn cyflawni ei gyfrifoldebau rheoli ac arwain'* **(par. 46.2 Amser penodedig i benaethiaid )** a hefyd bod gan '*athro sydd â chyfrifoldebau arwain neu reoli, cyn belled ag y bo'n rhesymol ymarferol, yr hawl i gael amser rhesymol yn ystod sesiynau ysgol er mwyn cyflawni'r cyfrifoldebau hynny'* **(par. 52.6 Amser rheoli)**. Mae'r amser yma'n ychwanegol at yr amser sydd wedi'i neilltuo ar gyfer CPA.

Mae UCAC yn ymwybodol iawn o'r heriau ariannol sy'n wynebu ysgolion ac mae UCAC yn parhau i ddadlau am gyllid ychwanegol ar gyfer gweithredu amser CPA a dulliau eraill o leihau pwysau gwaith.

**I gael cyngor neu arweiniad pellach, cysyllter â'r Swyddog Maes perthnasol. Ffoniwch swyddfa UCAC ar 01970 639950 i gael sgwrs â:**

- Mererid Lewis Davies, Swyddog Maes y De-ddwyrain a Phowys, Is-ysgrifennydd Cyffredinol mererid@ucac.cymru
- Jen Jones, Swyddog Maes y De-orllewin, jen@ucac.cymru
- Dilwyn Ellis Roberts, Swyddog Maes y De, dilwyn@ucac.cymru
- Roger Vaughan, Swyddog Maes y Gogledd, roger@ucac.cymru

**Swyddog Maes Cynorthwyol**

- Gareth Morgan, gareth@ucac.cymru

**Yn ogystal, mae modd cysylltu ag:**

- Ioan Rhys Jones, Ysgrifennydd Cyffredinol, ioan@ucac.cymru
- Iona Davies, Swyddog Polisi, iona@ucac.cymru

**Diweddarwyd: Mai 2026**

UCAC
Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru

Prif Swyddfa **UCAC**, Ffordd Penglais, Aberystwyth, Ceredigion SY23 2EU
**Ffon**: 01970 639950 | **ebost**: ucac@ucac.cymru | **gwefan**: ucac.cymru
**athrawoncymru** **@ucac_cymru** **@ucac.bsky.social**